



Ymgynraedd yn Ehangach

YDYCH CHI MEWN GOFAL
NEU'N RHYWUN SY'N GADAEL GOFAL
YNG NGHYMROU? 14-24 OED?

Dyma eich canllaw i Addysg Bellach ac
Uwch yng Nghymru



DDYLAI BOD MEWN GOFAL DDIM EICH ATAL RHAG MYND I'R BRIFYSGOL OS YDYCH CHI EISIAU MYND.

Mae'r canllaw yma'n cael ei gynhyrchu gan Bartneriaeth Ymgynraedd yn Ehangach De-orllewin Cymru. Mae'r fenter Ymgynraedd yn Ehangach yn cael ei hariannu gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, a'r nod yw helpu mwy o bobl i fynd i'r coleg neu'r brifysgol.

Mae tair Partneriaeth Ymgynraedd yn Ehangach sy'n cwmpasu Cymru gyfan. Cysylltwch â'ch Partneriaeth Ymgynraedd yn Ehangach leol i ddarganfod pa weithgareddau a chefnogaeth maen nhw'n eu cynnig i rai sy'n gadael gofal a phlant sy'n derbyn gofal yn eich ardal.

MANYLION CYSWLLT Y BARTNERIAETH YMGYRRAEDD YN EHANGACHS

Gogledd a Chanolbarth Cymru

reachingwider@bangor.ac.uk

www.reachingwider.ac.uk

Ffôn: 01248 383883

First Campus (De-ddwyrain Cymru)

firstcampus@southwales.ac.uk

www.firstcampus.org

Ffôn: 01443 482550

De-orllewin Cymru

ymgyrraedd.yn.ehangach@abertawe.ac.uk

www.swansea.ac.uk/cy/ymgyrraedd-yn-ehangach

Ffôn: 01792 602128



A decorative header with a green background featuring various school-related icons such as a globe, a pencil, a notebook, a ruler, a pair of scissors, a calculator, a magnifying glass, a pencil sharpener, and a pencil.

PAM ASTUDIO MEWN ADDYSG BELLACH NEU ADDYSG UWCH?

Mae aros ym myd addysg yn ffordd wych o gael mwy o gymwysterau, dysgu sgiliau newydd a gwneud ffrindiau newydd. Yn gyffredinol, po fwyaf o gymwysterau sydd gennych chi, mwyaf o gyfle fydd gennych chi o ennill mwy o arian wrth ddechrau gweithio.

Byddai gennych chi hefyd fwy o reolaeth ar eich dewis o swydd a ble rydych chi am weithio yn y dyfodol.



ADDYSG BELLACH



Mae Addysg Bellach ar gael am ddim i fyfyrwyr 16-19 oed. Gallwch astudio ar gyfer amrywiaeth o gymwysterau, o Safon Uwch (Lefel A) i Gyrsiau Galwedigaethol a Phrentisiaethau. Os byddwch chi'n dewis gadael yr ysgol yn 16 oed, gallwch astudio mewn coleg Addysg Bellach i ddatblygu eich sgiliau a'ch cymwysterau cyn symud ymlaen i gael swydd neu fynd i'r brifysgol.

Gallai fod hawl gennych chi i wneud cais am **LCA (Lwfans Cynhaliaeth Addysg)** neu **GDLIC (Grant Dysgu Llywodraeth Cymru)** wrth astudio. Bydd yr arian yma'n cael ei dalu i chi i helpu gyda chostau astudio.

I gael help a gwybodaeth am LCA (Lwfans Cynhaliaeth Addysg) a GDLIC AB (Grant Dysgu Llywodraeth Cymru Addysg Bellach), ewch i wefan Cyllid Myfyrwyr Cymru: www.studentfinancewales.co.uk

CEFNOGAETH WRTH ASTUDIO MEWN ADDYSG BELLACH

Dylai pob coleg Addysg Bellach gael swyddog dynodedig ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal (PDG) a rhai sy'n Gadael Gofal (GG). Os ydych chi'n meddwl gwneud cais i'r coleg, byddai'n werth cysylltu â'u swyddog dynodedig i gyflwyno eich hun a thrafod sut gallech chi gael eich cefnogi yn ystod eich cyfnod yn astudio yno.

Fydd cysylltu â'r person PDG dynodedig ddim yn golygu bod myfyrwyr eraill neu eich tiwtoriaid yn gwybod eich bod wedi derbyn gofal, ond bydd yn golygu eich bod chi'n cael cynnig yr holl gefnogaeth y mae gennych chi hawl i'w derbyn.



Gall Cefnogaeth Addysg Bellach gynnwys:

- ▶ Cefnogaeth a chyngor ariannol
- ▶ Tiwtor personol
- ▶ Cefnogaeth un-i-un ychwanegol gan Swyddog Cymorth Myfyrwyr ar gyfer unrhyw bryderon yn y coleg, e.e. help gyda budd-daliadau, pryder, iselder, bwlio, pryderon ynghylch perthnasoedd, cam-drin domestig, gwneud ffrindiau, materion hyder, gwybodaeth am les, ac ati.
- ▶ Cymorth Dysgu Ychwanegol, gan gynnwys: Cymorth Dyslecsia, Cymorth yn y dosbarth, cymorth ar gyfer anabledd neu amser ychwanegol mewn arholiadau.
- ▶ Cymorth gyda sgiliau astudio

ADDYSG UWCH



Mae'r brifysgol yn gyfle cyffrous a fydd ar agor i chi unwaith y byddwch wedi cwblhau eich Cymwysterau Lefel 3 fel Safon Uwch (Lefel A), Prentisiaeth Uwch, neu BTEC Cenedlaethol.

Yn y brifysgol gallwch ddewis astudio amrywiaeth aruthrol o gyrsiau. Mae'n bwysig eich bod yn dewis y cwrs iawn yn y brifysgol iawn i chi. Mae'n benderfyniad personol iawn, ond mae'n werth ystyried pethau fel lleoliad y brifysgol; fydda i'n mwynhau astudio'r pynciau hyn; ydy'r brifysgol yn cynnig digwyddiadau cymdeithasol a chymdeithasau y byddwn i'n hoffi ymuno â nhw?

Mae'n syniad da creu rhestr o'r cyrsiau a'r prifysgolion sydd i weld yn ennyn eich diddordeb, ac yna ymweld â nhw ar ddiwrnod agored, i gael edrych o gwmpas a phenderfynu allwch chi ddychmygu eich hun yn treulio tair neu bedair blynedd o'ch bywyd yn astudio yno.

I'ch helpu i benderfynu pa gwrs dylech ei astudio ac a yw prifysgol yn addas i chi, ceisiwch gysylltu gyda'ch Partneriaeth Ymgysylltu yn Ehangach Lleol i weld a ydynt yn cynnig sesiynau blas neu ysgolion Haf (manylion cyswllt ar dudalen un).



Gall Cefnogaeth Addysg Uwch gynnwys:

- ▶ Cynghor a chymorth gyda'ch cais i'r brifysgol
- ▶ Cymorth ariannol i fynd i ddiwrnodau agored a chyfweliadau
- ▶ Cynlluniau penodol ar gyfer y rhai sy'n Gadael Gofal
- ▶ Cymorth i wneud cais am gefnogaeth ariannol gan y cwmni Benthyciadau Myfyrwyr trwy eich Awdurdod Lleol
- ▶ Blaenoriaeth wrth wneud cais am fwrsariaethau a grantiau ychwanegol
- ▶ Llety wedi'i warantu, 365 diwrnod y flwyddyn
- ▶ Cyswllt penodol i'ch cefnogi ym mhob agwedd ar fywyd yn y brifysgol
- ▶ Cymorth gyda gofal plant wrth astudio
- ▶ Cymorth i gael hyd i waith rhan amser a chynllunio gyrfa

Y BROSES O WNEUD CAIS



[WWW.UCAS.COM](http://www.ucas.com)

Bydd angen i chi wneud cais am astudio ar gwrs Addysg Uwch trwy wefan UCAS (Y Gwasanaeth Derbyn i Brifysgolion a Cholegau). Mae ffi i'w thalu am wneud cais, ond bydd llawer o Awdurdodau Lleol yn talu honno i chi. Siaradwch â'ch Gweithiwr Cymdeithasol i gael gwybod sut bydd eich ffi am wneud cais yn cael ei thalu.

Fydd datgan eich bod wedi derbyn gofal ar eich ffurflen UCAS ddim yn golygu bod myfyrwyr eraill, eich tiwtoriaid na'ch darlithwyr yn gwybod hynny, ond bydd yn golygu eich bod yn cael cynnig yr holl gefnogaeth y mae gennych chi hawl i'w derbyn.

Bydd eich hawliau a'ch cyfrinachedd yn cael eu parchu bob amser.

Os na fyddwch wedi cael cynnig, ac rydych eisoes wedi defnyddio eich pum dewis, gallwch ddefnyddio ucas extra i gael dewis ychwanegol trwy UCAS. Does dim rhaid i chi aros am y system glirio; mae UCAS Extra yn gweithredu o ganol Mawrth tan ddiwedd Mehefin.

Clirio

Mae'r system glirio yn cael hyd i leoedd i bobl sydd heb gael cynnig lle yn y brifysgol a'i dderbyn.

Os ydych chi'n gymwys i'r system Glirio, bydd Ffurflen Glirio (CEF) yn cael ei hanfon atoch chi'n awtomatig, ond fydd dim rhaid i chi aros am hynny cyn dechrau ffonio prifysgolion.

Bydd rhestrau o gyrsiau sydd â lleoedd gwag yn cael eu cyhoeddi ar wefan UCAS ac mewn rhai papurau newydd - The Independent, The Independent on Sunday a The Mirror, o ganol Awst tan ddiwedd Medi.

Unwaith byddwch chi wedi dod o hyd i gwrs, cysylltwch â'r brifysgol neu'r coleg i weld ydyn nhw'n barod i'ch derbyn.

Os byddwch chi'n derbyn lle trwy'r broses Glirio, ceuwch lythyr cadarnhau gan UCAS yn awtomatig.



LLETY AC ARIAN



Y Brifysgol – Rhywle i fyw!

Does dim rhaid i chi boeni am rywle i fyw. Gallwch chi gael llety myfyriwr ar hyd y flwyddyn, nid yn ystod y tymor yn unig! Hefyd gofynnwch i'ch gweithiwr cymdeithasol am y cynllun 'Pan fydda i'n barod', gan y gallai fod modd i chi gadw eich ystafell yn nhŷ eich gofalwr maeth ar gyfer penwythnosau a gwyliau.

Y Brifysgol – Peidiwch â gadael i arian eich dal chi nôl!

Wrth astudio yn y brifysgol, bydd gennych chi ddau brif fath o gostau – eich ffioedd dysgu a'ch costau byw. Mae help ar gael ar gyfer y costau hyn ar ffurf Grantiau (arian does dim rhaid i chi ei dalu nôl) a Benthyciadau (arian y mae rhaid i chi ei dalu nôl). Mae arian ar gael i dalu am ffioedd dysgu, felly nid oes raid i chi dalu unrhyw beth ymlaen llaw i gael lle ar eich cwrs. Bydd y swm y gallwch ei hawlio yn dibynnu ar faint mae eich cwrs yn costio, ble rydych chi'n byw, ble rydych chi'n astudio ac incwm eich aelwyd.

Cyllid Myfyrwyr Cymru – Os ydych chi'n byw yng Nghymru, bydd angen i chi wneud cais am gyllid trwy Gyllid Myfyrwyr Cymru. Byddwch chi'n gallu defnyddio'r cyfrifydd cyllid myfyrwyr a fydd yn eich helpu i gyfrifo faint y gallech chi ei hawlio. Peidiwch ag aros nes bod gennych chi gynnig pendant gan Brifysgol cyn gwneud cais am gyllid myfyrwyr. Bydd hynny'n helpu i osgoi unrhyw oedi wrth sicrhau eich pecyn myfyriwr pan fyddwch chi'n cychwyn ar eich cwrs.

www.cyllidmyfyrwryrcymru.co.uk

BWRSARIAETHAU

Cymorth ariannol ychwanegol sy'n cael ei dalu i fyfyrwyr gan y sefydliadau lle maen nhw'n astudio yw bwrsariaethau. Does **DIM** rhaid eu talu'n ôl. Mae bwrsariaethau'n cael eu talu am amrywiaeth o wahanol resymau. Mae bwrsariaethau'n amrywio o un sefydliad i'r nesaf, felly mae'n bendant yn werth gwirio oes gennych chi hawl i dderbyn un.

Mae llawer o brifysgolion yn dyfarnu bwrsariaethau i rai sy'n Gadael Gofal, bwrsariaethau pynciau blaenoriaeth, bwrsariaethau rhagoriaeth (am ganlyniadau Safon Uwch/B-Tech da), bwrsariaethau chwaraeon a bwrsariaethau cysylltiedig ag incwm, er enghraifft.

Cymorth gan Awdurdodau Lleol – Bwrsariaeth Addysg Uwch

Mae rhaid i Awdurdodau Lleol dalu Bwrsariaeth Addysg Uwch i 'blant perthnasol' gynt sy'n dilyn cwrs addysg uwch yn unol â'u Cynllun Llwybr. Mae gan yr Who Cares Trust wybodaeth ddefnyddiol i'ch helpu i weld pa gefnogaeth gallwch chi ei hawlio, ac ydych chi'n 'blentyn perthnasol'.

www.thewhocarestrust.org.uk/pages/what-support-am-i-entitled-to.html

Byddai'n werth cael gair gyda'ch Gweithiwr Cymdeithasol neu chwilio am ragor o wybodaeth ar-lein

CEFNOGAETH ARIANNOL YCHWANEGOL

Ysgoloriaethau Cyfrwng Cymraeg

Cynigir Cynllun Ysgoloriaethau Israddedig y Coleg Cymraeg Cenedlaethol i fyfyrwyr sy'n astudio amrywiaeth o gyrsiau trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hyd at £1,000 y flwyddyn ar gael. www.colegcymraeg.ac.uk/myfyrwyr/en/studentfinance

Cymorth disgrisiynol – Cronfeydd Caledi

Mae'r mwyafrif o brifysgolion yn darparu cronfeydd caledi. Bydd y Gwasanaethau Myfyrwyr yn y brifysgol rydych wedi'i dewis yn gallu rhoi mwy o fanylion i chi. amount you receive.

Help i Rien

– Gall myfyrwyr sydd â phlant gael cymorth ychwanegol ar sail prawf modd. Mae'r rhain yn cynnwys Lwfans Dysgu i Rien, Grant Oedolion Dibynnol (ar gyfer y rhai sydd â phartner ariannol ddibynnol) a help trwy'r Grant Gofal Plant (i dalu hyd at 85% o unrhyw gostau gofal plant cofrestredig).

Budd-daliadau Iles

Os oes gennych chi blant neu os ydych chi'n anabl, mae'n bosib y byddwch chi'n dal i fedru hawlio rhai budd-daliadau fel Budd-dal Tai a Chymhorthdal Incwm. Nid yw Cymorth i Fyfyrwyr fel arfer yn effeithio ar Gredydau Treth Plant. Bydd eich Asiantaeth Fudd-daliadau leol yn gallu rhoi mwy o wybodaeth i chi.

Help i fyfyrwyr anabl

Mae help ar gael gyda chostau ychwanegol cysylltiedig â'r cwrs o ganlyniad i'ch anabledd. Ni fydd incwm eich aelwyd yn cael effaith ar y swm a dderbyniwch.

Ysgoloriaethau a bwrsariaethau eraill sydd ar gael

Mae llawer o sefydliadau a chyflogwyr eraill yn ceisio cefnogi myfyrwyr yn ystod eu hastudiaethau. I gael gwybod mwy, ewch i www.scholarship-search.org.uk

Cyrsiau'r Adran Iechyd

Ar hyn o bryd nid oes angen benthyciad ffioedd ar gyfer cyrsiau bwrsariaeth y GIG. Mae bwrsariaeth prawf modd ar gyfer rhai cyrsiau lechyd, a bwrsariaeth heb brawf modd ar gyfer eraill. Natur y cwrs ac amgylchiadau personol y myfyriwr fydd yn penderfynu a allwch chi hawlio'r bwrsariaethau yma. Mae holl fwrsariaethau'r GIG yn cael eu talu'n fisol, a does dim rhaid eu talu'n ôl.



CWESTIYNAU A PHRYDERON CYFFREDIN

SUT MAE BOD YN GYMWYS AR GYFER CYMORTH YN Y BRIFYSGOL I'R RHAI SY'N GADAEL GOFAL?

Cewch eich ystyried fel rhywun sy'n gadael gofal wedi chi gyrraedd 16 oed. I fod yn gymwys am gymorth ariannol neu arall mewn Prifysgol fel rhywun sy'n Gadael Gofal, fel arfer rhaid i chi fod wedi bod mewn Gofal Awdurdod Lleol fel unigolyn ifanc ers 13 wythnos o leiaf ers 14 oed a'ch bod mewn gofal Awdurdod Lleol yn 16 oed neu wedi bod ers cael eich pen-blwydd yn 16 oed.

Os ydych yn rhywun sy'n gadael gofal o Gymru er mwyn cychwyn mewn astudio addysg uwch am y tro cyntaf cyn eich pen-blwydd yn 25 oed, mae gennych hawl i gael bwrsari unwaith ac am byth (cymorth ariannol nad oes angen i chi ei ad-dalu) gan eich awdurdod lleol.

Mae nifer o brifysgolion yn cynnig cymorth ar gyfer Gadawyr Gofal hefyd felly gwnewch yn siŵr eich bod yn ticio'r blwch ar eich cais UCAS i adael iddynt wybod eich bod yn rhywun sy'n gadael gofal.

SUT MAE PENDERFYNU PA GWRS NEU BWNC I'W ASTUDIO?

Mae'n bwysig dewis cwrs/pwnc y byddwch chi'n ei fwynhau ac a fydd yn eich helpu i gyflawni unrhyw nodau gyrfa sydd gennych. Ewch i Ddiwrnodau Agored Prifysgolion a chysylltwch ag adrannau Prifysgol i holi ynghylch unrhyw gysiau sydd o ddiddordeb i chi. Ceisiwch gysylltu â'ch Partneriaeth leol Ymgyrraedd yn Ehangach i weld ydyn nhw'n cynnig sesiynau rhagflas neu ysgolion haf. Manylion cyswllt ar dudalen 1.

BLE BYDDA I'N BYW YN YSTOD Y GWYLIAU?

Mae cymorth ariannol ar ffurf bwrsariaethau ar gael i helpu i dalu am gost llety yn ystod y gwyliau. Dylech wneud cais am lety cyn gynted â phosib i sicrhau bod gan y brifysgol lety ar eich cyfer yn ystod y cyfnodau hynny.

Os nad oes, gallan nhw eich helpu i gael hyd i lety preifat. Siaradwch â'r tîm Gwasanaethau Myfyrwyr a byddan nhw'n gallu rhoi cyngor a chefnogaeth i chi gyda'ch holl bryderon a chwestiynau llety.

Holwch eich gweithiwr cymdeithasol ynghylch y cynllun 'Pan fydda i'n barod', gan y byddwch o bosib yn gallu cadw eich ystafell yn nhŷ eich gofalwr maeth ar gyfer penwythnosau a gwyliau.

SUT BYDDA I'N CYRRAEDD DIWRNODAU AGORED A CHYFWELIADAU?

Siaradwch â'ch gweithiwr cymdeithasol i weld pa gefnogaeth gallan nhw gynnig. Gallwch gysylltu hefyd â'r tîm Gwasanaethau Myfyrwyr yn y brifysgol y byddwch yn ymweld â hi, i weld a allan nhw helpu gyda chostau cludiant, tocynnau trên ac ati.



CWESTIYNAU A PHRYDERON CYFFREDIN

DYDW I DDIM EISIAU MYND I DDIWRNOD AGORED AR FY MHEN FY HUN.

Siaradwch â'r tîm Gwasanaethau Myfyrwyr yn y brifysgol y byddwch chi'n ymweld â hi. Os dywedwch wrthyn nhw eich bod chi'n rhywun sy'n Gadael Gofal, byddan nhw'n aml yn gallu trefnu bod rhywun yn dod i gwrdd â chi ac ymweld â'r diwrnod agored gyda chi. Gallan nhw drefnu hefyd eich bod yn cwrdd ag ymgynghorydd i drafod cefnogaeth, materion ariannol, a llety ac ati yn ystod y diwrnod. etc during the day.

SUT GALLA I GAEL GWYBOD PA GEFNOGAETH SYDD AR GAEL I MI MEWN GWAHANOL BRIFYSGOLION?

Os ydych chi'n gwneud cais i brifysgolion yng Nghymru, ewch i www.swansea.ac.uk/media/careleaversguide.pdf neu www.class.cymru i weld pa gefnogaeth sydd ar gael ac â phwy dylech chi gysylltu. Os ydych chi'n cyflwyno cais i brifysgolion yn Lloegr, ewch i www.propel.org.uk.

RYDW I'N PRYDERU Y BYDDA I'N METHU Fforddio BYW TRA MOD I YN Y BRIFYSGOL.

Bydd eich tîm Gwasanaethau Myfyrwyr yn gallu rhoi cyngor ar gyllidebu a rheoli eich arian. Gallan nhw hefyd roi amrywiaeth o wahanol offer i chi i'ch helpu gyda chyllidebu o ddydd i ddydd.

MAE'R HOLL BROSES O WNEUD CAIS I FYND I'R BRIFYSGOL A RHOI TREFN AR YR OCHR ARIANNOL YN FY LLETHU. ALL RHYWUN FY HELPŪ?

Gall y tîm Gwasanaethau Myfyrwyr weithio gyda chi i'ch helpu i lenwi eich ffurflen UCAS a'ch cefnogi drwy'r holl broses o sicrhau lle ar gwrs a chychwyn yn y brifysgol.

Gallan nhw weithio gyda chi hefyd i gael hyd i arian y gallwch ei hawlio a'ch helpu i wneud cais am fenthyciadau neu fwsariaethau. Gall eich ymgynghorydd eich cefnogi chi hefyd pan fyddwch chi'n cychwyn yn y brifysgol ac ar hyd eich astudiaethau.

DYDW I DDIM EISIAU I BAWB WYBOD MOD I'N GADAEL GOFAL

Dyw datgan y ffaith eich bod wedi derbyn gofal ar eich ffurflen UCAS ddim yn golygu y bydd myfyrwyr eraill na'ch tiwtoriaid neu eich darlithwyr yn gwybod hynny. Ond bydd yn golygu eich bod yn cael cynnig yr holl gefnogaeth y mae gennych hawl i'w derbyn. Bydd eich hawliau a'ch cyfrinachedd yn cael eu parchu bob amser.

RYDW I'N PRYDERU Y BYDDA I'N METHU CADW I FYNY GYDA'R GWAITH YN Y BRIFYSGOL

Mae llawer o brifysgolion yn cynnig cyngor a chefnogaeth gyda Sgiliau Astudio Addysg Uwch. Mae hynny'n golygu bod pobl ar gael i'ch helpu gyda sgiliau fel ysgrifennu traethodau, rhoi cyflwyniadau a pharatoi cyfeiriadau. Bydd gennych chi hefyd Diwtor Personol yn eich adran a fydd yn gweithio gyda chi ar hyd eich astudiaethau, i sicrhau eich bod yn cael cefnogaeth dda ar hyd eich cyfnod yn astudio gyda nhw. Mae'n bosibl y bydd Gwasanaethau Myfyrwyr hefyd yn cynnig sesiynau ar bynciau fel delio gyda straen, rheoli amser a meithrin hyder.

RYDWI'N RHIAENT. SUT GALLAI OFALU AM FYMHLENTYN AR YR UN PRYD AG ASTUDIO?

Mae'n bosib y byddwch chi'n gallu hawlio help gyda chostau gofal plant. Mae'n werth siarad â'r tîm Gwasanaethau Myfyrwyr yn y brifysgol rydych wedi'i dewis i drafod yr opsiynau gofal plant.

DYDYCH CHI DDIM AR EICH PEN EICH HUN!

Dydych chi'n bendant ddim ar eich pen eich hun yn ystod y broses o gyflwyno cais i'r Brifysgol, wrth gyrraedd y Brifysgol, ac wrth i chi astudio yn y Brifysgol. Mae prifysgolion am i chi fwynhau amser hapus, llwyddiannus wrth astudio gyda nhw, a gallan nhw eich cefnogi i sicrhau bod y broses honno mor hwylus â phosib.

Gall prifysgolion gynnig cymorth Gwasanaethau Myfyrwyr, cymorth academaidd, a chyngor ac arweiniad ynghylch gyrfaoedd a materion ariannol. Maent yno i'ch helpu ym mhob ffordd gallan nhw. Rydyn ni bob amser yn argymhell eich bod chi'n siarad ag un o'r tîm er mwyn iddyn nhw fedru gweithio gyda chi i ddatrys unrhyw bryderon sydd gennych chi neu bethau sy'n eich poeni.

Gall eich tîm Gwasanaethau Myfyrwyr yn y brifysgol roi cyngor i chi hefyd ar sut i gyllidebu'n llwyddiannus. Bydd hyn yn eich helpu i reoli eich arian, a chael hyd i fyrdd o sicrhau bod eich arian yn mynd yn bellach.

GWEFANNAU DEFNYDDIOL

www.ucas.com

I wneud cais i brifysgolion ym Mhrydain gan gynnwys arweiniad ar bob cam o'r broses.

www.cyllidmyfyrwyr.cymru.co.uk

Ariannu myfyrwyr yng Nghymru.

www.class.cymru

Gwybodaeth am weithgareddau gadwyr gofal a chymorth myfyrwyr yng Nghymru yn cynnwys manylion cyswllt gadawyr gofal ar gyfer prifysgolion yng Nghymru.

www.careerswales.com

Cyngor a gwybodaeth am addysg a gyrfa.

www.Propel.org.uk

Defnyddiwch y swyddogaeth chwilio i ddarganfod beth mae'r brifysgol rydych chi wedi'i dewis yn ei gynnig i'r rhai sy'n gadael gofal.

www.colegcymraeg.ac.uk

Mae'n eich helpu chi i ddod o hyd i gyrsiau a addysgwyd trwy gyfrwng y Gymraeg.

www.scholarship-search.org.uk

Cael hyd i ysgoloriaethau a gwybodaeth amdanynt.

www.prospects.ac.uk

Gwybodaeth am gymryd blwyddyn fwll, gyrfaoedd a chyflogaeth.

www.university.which.co.uk

Gwybodaeth am y pynciau y gallwch eu hastudio a'r swyddi y gallech eu gwneud.

www.bestcourse4me.com

Gwybodaeth am beth gallwch chi astudio, faint gallwch chi ennill a'r swyddi fydd ar gael i chi.

www.studential.com

Gwybodaeth a chyngor ar addysg.

www.thestudentroom.co.uk

Y gymuned fwyaf o fyfyrwyr yn y byd.

www.applytouni.com

Cyngor wrth wneud cais am le yn y brifysgol.

www.buttuk.org

Yn cynnig grantiau bach i bobl ifanc sy'n gadael gofal i helpu gyda chostau byw megis rhent, bwyd, biliau trafnidiaeth ac adnoddau cwrs.

www.gov.uk/leaving-foster-or-local-authority-care

Bwrsariaeth Awdurdod Lleol ar gyfer y rhai sy'n Gadael Gofal.

www.complantcymru.org.uk

Comisiynydd Plant Cymru.

www.careleavers.com/accessingeducation

Cymdeithas y rhai sy'n Gadael Gofal.

www.thewhocarestrust.org.uk

Llais i blant mewn gofal.

www.princes-trust.org.uk

Elusen ieuencid yn darparu cymorth ymarferol ac ariannol.

www.turn2us.org.uk

Cyngor ar fudd-daliadau.

www.standalone.org.uk

Ar gyfer myfyrwyr sydd wedi ymbellhau oddi wrth eu teuluoedd.

PARTNERIAETH YMGYRRAEDD YN EHANGACH DE-ORLLEWIN CYMRU

Cynhyrchwyd y canllaw hwn gan Bartneriaeth Ymgyrraedd yn Ehangach De-orllewin Cymru, sy'n cael ei hariannu gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru.

Aelodau'r Bartneriaeth yw:

Gyrfa Cymru
Cyngor Sir Caerfyrddin
Dinas a Sir Abertawe
Coleg Sir Gâr
Coleg Gŵyr Abertawe
Grŵp Coleg CNPT
Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot

Y Brifysgol Agored yng Nghymru
Coleg Sir Benfro
Cyngor Sir Penfro
Prifysgol Abertawe
Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant.

Roedd yr holl wybodaeth yn gywir adeg argraffu. Mae gan bob prifysgol a choleg ofynion mynediad gwahanol, sy'n debygol o newid o flwyddyn i flwyddyn. Mae'r trefniadau ariannu a ffioedd yn tueddu i newid bob blwyddyn hefyd.

I GAEL RHAGOR O WYBODAETH CYSYLLTWCH A:

 01792 602 128

 ymgyrraedd.yn.ehangach@abertawe.ac.uk

 www.swansea.ac.uk/cy/ymgyrraedd-yn-ehangach

 @ReachingWider

